**Mulod Arian a'r canlyniadau**

**Cynllun Gwers 2022**

| Testun | Cynnwys | Amcanion dysgu | Rhif sleid y cyflwyniad |
|---|---|---|---|
| **Amcanion Dysgu** | | Rydym yn dysgu am y risgiau sy'n gysylltiedig â gweithredu fel mul arian | |
| **Bwriad Deilliannau Dysgu** | | • Gallaf ddiffinio beth yw mul arian<br>• Gallaf esbonio pam y gallai rhywun gael ei demtio neu ei dwyllo i fod yn ful arian<br>• Gallaf esbonio'r canlyniadau o weithredu fel mul arian<br>• Gallaf ddisgrifio sut i gael cymorth os byddaf yn poeni amdanaf fy hun neu am ffrind | |
| Rhagarweiniadau<br>Fformat y wers | Rhagarweiniad i'r cyflwynydd/cyflwynwyr, Tarian a'r Uned Troseddau Economaidd Ranbarthol.<br><br>Rhagarweiniad i'r wers, ei fformat ac amcanion dysgu. | Bydd myfyrwyr yn dod i ddeall Tarian a'r Uned Troseddau Economaidd Ranbarthol, ei chenhadaeth a'i gwerthoedd. | 1, 2 |
| | Fideo (yn seiliedig ar stori wir) o'r ffordd y dechreuodd rhywun fel mul arian a beth oedd y canlyniadau | Bydd myfyrwyr yn gweld sut y cafodd berson ifanc ei ddenu at fod yn ful arian, sut yr effeithiodd hynny arno, a sut yr effeithiodd hynny arno ef a'i deulu | 3 |
| Beth yw Mul Arian? | Esboniwch beth yw Mul Arian.<br><br>Trafodwch sut a pham y mae pobl yn dod yn Fulod Arian. Esboniwch o ble y mae'r arian wedi dod ac esboniwch sut y caiff yr arian ei 'lanhau' gan gyfeirio at y cymorth gweledol cam wrth gam (sleid 7). | Bydd myfyrwyr yn dod i ddeall beth yw Mul Arian.<br><br>Bydd myfyrwyr yn dod i ddeall y rhesymau pam mae pobl yn cymryd rhan a sut mae pobl yn cymryd rhan. | 4, 5, 6, 7, 8, 9, 10, 11 & 12 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Trafodwch yr iaith a'r derminoleg a ddefnyddir gan droseddwyr.<br><br>Amlygwch a thrafodwch yr ystadegau presennol sy'n ymwneud â phobl ifanc (erthygl papur newydd) a thrafodwch enghraifft o sgam (sgam trwydded deledu).<br><br>Trafodwch ddulliau cyffredin o recriwtio a ddefnyddir gan grwpiau troseddu cyfundrefnol (cyfeiriwch at enghreifftiau o hysbysebion recriwtio a ddosbarthwyd ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol a thrafodwch). | Bydd myfyrwyr yn cydnabod bod niferoedd mawr o bobl ifanc yn cael eu targedu fel Mulod Arian ledled y DU.<br><br>Bydd myfyrwyr yn ymwybodol o'r iaith a ddefnyddir gan droseddwyr a'r dulliau o recriwtio Mulod Arian. | |
| Beth yw canlyniadau bod yn Ful Arian? | Amlygwch ganlyniadau bod yn Ful Arian.<br><br>Trafodwch ganlyniadau galluogi troseddwyr i fod mewn rheolaeth lawn ar eich cyfrif banc. Pwysleisiwch y byddwch yn torri telerau ac amodau eich banc drwy adael i berson heb awdurdod gael hawl mynediad i'ch cyfrif banc. Amlygwch wirionedd y tor-cyfraith hwn. Amlygwch y gall hyn arwain at gau eich cyfrif banc a thrafodwch yr effaith uniongyrchol y gall hyn ei chael. Trafodwch y ffordd y bydd marciwr twyll yn cael ei gysylltu â'ch enw, bydd adroddiadau'n cael eu gwneud i asiantaethau credyd (sy'n para chwe blynedd), bydd gennych sgôr credyd gwael ac felly, bydd hi'n anodd i chi agor cyfrif banc arall. Amlygwch na fydd modd cael credyd am bethau syml fel contract ffôn symudol neu gyfrif hapchwarae ac, yn y dyfodol, na fydd modd i chi gael benthyciad i brynu car, cael benthyciad myfyriwr, cytundeb rhent na morgais. | Bydd myfyrwyr yn dod i ddeall canlyniadau bod yn Ful Arian.<br><br>Bydd myfyrwyr yn deall y bydd canlyniadau bod yn Ful Arian yn effeithio'n uniongyrchol arnynt nawr ac yn y dyfodol.<br><br>Bydd myfyrwyr yn deall os bydd banc yn eu hadnabod fel Mul Arian, bydd eu cyfrif yn cael ei gau. Byddant yn deall y nifer fawr o broblemau a fydd yn dod i'w rhan os na allant agor cyfrif banc arall. | 13, 14, 15, 16, 17, 18, 19 & 20 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Amlygu, trwy ganiatáu i arian troseddol fynd drwy'ch cyfrif banc, eich bod yn cyflawni trosedd Gwyngalchu Arian. Trafodwch sut y gallech gael eich arestio, cael eich ffotograff, olion bysedd a DNA wedi'u cymryd a chael collfarn droseddol.<br><br>Amlygwch y ddedfryd fwyaf ar gyfer collfarn o Wyngalchu Arian.<br><br>Trafodwch ganlyniadau potensial pellach. Cyflogaeth, cyfleoedd addysgol, cyfyngiadau teithio ac ati i'r dyfodol.<br><br>Trafodwch beth y gall troseddwyr ei wneud | | |
| Ble mae'r arian yn mynd? | Trafodwch yr arian troseddol. Esboniwch fod yr arian cael ei ddefnyddio i ariannu a hwyluso troseddau sy'n ymwneud â chyffuriau ac arfau tanio a throseddau fel puteindra, camfanteisio troseddol ar blant neu fasnachu plant, seiberdrosedd a therfysgaeth. | Bydd myfyrwyr yn cydnabod os byddant yn gadael i arian troseddol fynd trwy eu cyfrifon banc, y byddant yn hwyluso trosedd gyfundrefnol ddifrifol. | 21 |
| Gwnewch ddewisiadau da | Rhowch wybodaeth a chyngor i fyfyrwyr i'w hatal rhag cael eu targedu a'u recriwtio fel Mulod Arian. Rhowch gynghorion syml a chofiadwy i fyfyrwyr. | Bydd myfyrwyr yn gwybod sut i atal eu hunain ac atal pobl eraill rhag cael eu defnyddio fel Mulod Arian. | 22, 23, 24, 25, 26 & 27 |
| Cymorth | Rhoi gwybodaeth i fyfyrwyr i'w helpu i ddod o hyd i unrhyw gymorth, cyngor ac arweiniad angenrheidiol ychwanegol. | Bydd myfyrwyr yn gwybod ble i edrych i gael rhagor o wybodaeth a chymorth. | 28 |

**Mae dysgwyr yn mwynhau gweithgareddau a thrafodaethau. Rwy'n credu y dylid manteisio ar unrhyw gyfle i gynnwys dysgwyr. Mae'r pwnc yn eithaf cymhleth, felly cynghorir i'w gadw mor syml â phosibl. Mae cyflwynydd brwdfrydig, gwybodus yn fanteisiol hefyd.**